ARMED FORCES
COVENANT

# Canllaw i Awdurdodau Lleol:
# Sut i gyflawni'r Cyfamod yn eich ardal chi

**Cyfamod y Lluoedd Arfog**

Cyfamod Parhaus rhwng

Pobl y Deyrnas Unedig,
Llywodraeth Ei Mawrhydi

- a -

Phawb sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron

a’u Teuluoedd

Dyletswydd gyntaf Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar ran y Llywodraeth, gan aberthu rhywfaint o'u rhyddid fel dinasyddion, wynebu perygl ac, weithiau, dioddef anaf difrifol neu farwolaeth yn sgil eu dyletswydd. Mae eu teuluoedd hefyd yn chwarae rôl hanfodol yn cefnogi gweithrediad effeithiol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hyn, mae gan y genedl gyfan ddyletswydd foesol i aelodau Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Awyrlu Brenhinol, ynghyd â’u teuluoedd. Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth, a chael eu trin yn deg.

Ni ddylai'r rhai hynny sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed yn y Lluoedd Rheolaidd neu'r Lluoedd Wrth Gefn, y rhai hynny sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, a'u teuluoedd, wynebu anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran y gwasanaethau cyhoeddus a masnachol a ddarperir ar eu cyfer. Mae'n briodol rhoi ystyriaeth arbennig iddynt mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rhai hynny sydd wedi rhoi fwyaf, megis y rhai sydd wedi'u hanafu a theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth.

Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys y gymdeithas gyfan: mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau preifat, ac unigolion sy’n cefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod y rhai hynny sydd wedi cyflawni dyletswydd filwrol yn uno'r wlad ac yn brawf bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Nid oes gwell ffordd o wneud hyn na chadw at y Cyfamod hwn.

ARMED FORCES
COVENANT

## CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Addewid gan y genedl yw Cyfamod y Lluoedd Arfog er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd yn cael eu trin yn deg. Gwneir yr ymrwymiad hwn i gydnabod yr aberth maent yn ei wneud ar ran y wlad. Nid yw Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi'i lunio i roi ffafriaeth i aelodau'r Lluoedd Arfog, Cyn-filwyr a'u teuluoedd o gymharu â dinasyddion eraill, ond dylai sicrhau eu bod yn cael chwarae teg ac nad ydynt dan anfantais oherwydd eu Gwasanaeth.

Er mwyn iddo allu gwneud gwahaniaeth, mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn dibynnu ar gefnogaeth y llywodraeth, cymunedau, busnesau ac unigolion y DU. Mae Awdurdodau Lleol wrth galon y grŵp cefnogi hwnnw, ond bydd eich sefydliad chi yn un o nifer sy'n gweithio'n galed i sicrhau bod milwyr gwrywaidd a benywaidd, cyn-filwyr a'u teuluoedd yn cael chwarae teg.

Nod y canllaw hwn yw egluro sut mae bywyd yn y Gwasanaethau yn effeithio ar y Lluoedd Arfog a'r ffyrdd y gallwch sicrhau bod eich gwasanaethau yn cymryd anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog i ystyriaeth.

### Beth mae Cymuned y Lluoedd Arfog ei olygu?

Fe ystyrir fod pawb sy'n gwasanaethu (yn y Lluoedd Rheolaidd a'r Lluoedd Wrth Gefn), cyn-filwyr a'u teuluoedd yn aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog. Dylid ystyried fod plant pawb sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog – waeth beth yw statws priodasol eu rhieni – yn aelodau o'r gymuned tra byddant yn ddibynyddion.[1]

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn berthnasol i bawb sy'n aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog, pa un a ydynt wedi'u lleoli yn y DU neu dramor. Ni ddylai teuluoedd milwyr fod dan anfantais yn sgil y gofyniad i wasanaethu dramor. Mae nifer o fesurau proffidiol ac amhroffidiol yn helpu i wneud iawn am yr agweddau hynny o galedi sy'n gysylltiedig â byw dramor. Fodd bynnag, mae gan Awdurdodau Lleol ran i'w chwarae er mwyn taclo'r effeithiau parhaus o symud tŷ, boed y rhwystrau i'w teimlo fel eu bod mewn bodolaeth wrth iddynt geisio cael mynediad teg at dai, ysgolion, cyflogaeth neu ofal iechyd.

### Pam ein bod angen Cyfamod ar gyfer y Lluoedd Arfog?

Mae bywyd yn y Lluoedd Arfog yn wahanol i fywyd y tu allan i'r gymuned hon. Mae gyrfa filwrol yn heriol a boddhaus, ac mae unigolion sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn gwneud ebyrth er mwyn gallu gwasanaethu. Maent yn mynd i le bynnag y cânt eu hanfon, pryd bynnag y cânt eu hanfon. Tra bydd angen i ni amddiffyn ein cenedl a'i buddiannau mewn byd ansicr a pheryglus, byddwn angen Lluoedd Arfog sy'n barod ac yn fodlon i wasanaethu pan ddaw'r alwad. Felly bydd rhaid i deuluoedd symud, weithiau gyda dim ond ychydig o rybudd, i ardaloedd anghyfarwydd. Efallai bydd rhaid iddynt fyw ar wahân am gyfnodau hir o amser ac ymdopi â'r materion sy'n dod law yn llaw â hyn. Byddant hefyd yn wynebu adegau anodd pan fydd y sawl maent yn ei garu yn cael ei anfon i warchod y genedl.

Golyga hyn i gyd y gallant fod dan anfantais o gymharu â'u cymdogion sifil wrth iddynt geisio cael

1. Rydym hefyd yn annog awdurdodau lleol i gynnwys darpariaethau ar gyfer gwŷr/gwragedd neu bartneriaid sifil sydd wedi gwahanu/ysgaru wrth iddynt baratoi i adael Cymuned y Lluoedd Arfog.

mynediad at y nwyddau a’r gwasanaethau y dylem i gyd eu cael fel dinasyddion.

**Beth i'w wneud**

Mae eich Cymuned Lluoedd Arfog leol yn rhan o'ch cymuned leol, ac felly dylid sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt yn cael anffafriaeth wrth iddynt geisio cael mynediad at wasanaethau, cefnogaeth a gwaith.

Nid oes yna fformiwla benodol i Awdurdodau Lleol i'w dilyn. Bydd y lefel o gefnogaeth y byddwch yn ei darparu yn dibynnu ar faint eich Cymuned Lluoedd Arfog a'u hanghenion unigol. Fodd bynnag, mae gan bob Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i gefnogi ei Gymuned Lluoedd Arfog.

Gall hyn ymddangos i fod yn her hynod anodd ond yn syml beth ydyw yw sicrhau bod y Gymuned Lluoedd Arfog yn cael eu hystyried pan fydd polisïau sy'n effeithio ar y boblogaeth leol yn cael eu hysgrifennu a'u gweithredu - ac mi fydd yna aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn eich poblogaeth leol.

Wrth ystyried sut dylech gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog dylech gofio fod yna ddwy egwyddor yn cefnogi'r addewid y dylai aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog gael eu trin yn deg:

- Ni ddylai Cymuned y Lluoedd Arfog wynebu anfantais o gymharu â dinasyddion eraill wrth iddynt geisio cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus

- Mae'n briodol rhoi ystyriaeth arbennig mewn rhai achosion i'r rhai hynny sydd wedi rhoi fwyaf, megis y rhai sydd wedi'u hanafu a theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth.

**Beth mae'r egwyddorion hyn yn ei olygu?**

**Beth mae'r cyntaf yn ei olygu?** Pryd all Cymuned y Lluoedd Arfog fod dan anfantais o gymharu â'u cyd-ddinasyddion?

Mae'n rhaid i aelodau'r gwasanaethau a'u teuluoedd symud o gwmpas llawer mwy na dinasyddion eraill a gallant, er enghraifft, ddarganfod eu hunain ar waelod rhestrau aros iechyd neu dai cymdeithasol yn barhaus, neu efallai gallant brofi anhawster wrth geisio dod o hyd i lefydd i'w plant mewn ysgolion lleol. Felly bydd rhaid i addewidion sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfamod Cymuned y Lluoedd Arfog sicrhau bod y prif bolisïau tai, gofal iechyd ac addysg yn ddigon hyblyg i adlewyrchu realiti bywyd yn y Lluoedd Arfog.

Nid yw hyn yn golygu y dylai'r rheini sydd yng Nghymuned y Lluoedd Arfog neidio i frig y rhestr neu gael triniaeth arbennig - nid ydynt eisiau hynny - ond mae'n golygu na allwn adael iddynt gael eu gadael ar ôl neu eu hanghofio.

Nid yw'n golygu, er enghraifft, pan fyddant yn dychwelyd i ardal eu magwraeth ar ôl bod yn y Gwasanaethau am flynyddoedd fod ganddynt hawl awtomatig i dŷ; ond mae'n golygu y dylent gael yr hawl i gael yr un cysylltiad lleol ac ystyriaeth a'u hen ffrind ysgol sydd erioed wedi gadael ardal eu magwraeth.

Nid yw'n golygu y dylai plant teuluoedd sydd yn y Gwasanaethau gael llefydd yn yr ysgolion gorau yn

awtomatig; ond mae’n golygu y dylid fod yna broses - a digon o hyblygrwydd yn y system - i alluogi’r plant hyn gael lle mewn ysgol - fydd yn aml ar fyr rybudd, yng nghanol y tymor ysgol, ac weithiau ni fydd gan y teulu lety neu god post penodol yn yr ardal.

### A'r ail egwyddor?

Bydd pawb sydd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog – ac mae pob Awdurdod Lleol ym Mhrydain wedi gwneud hyn – yn cytuno fod gennym ddyletswydd fel cenedl i gefnogi'r rhai hynny sydd wedi gwneud yr aberth fwyaf ar ran y wlad; y rhai hynny sydd wedi cael eu hanafu neu'r rhai hynny sydd wedi cael profedigaeth.

Yn y llywodraeth ganolog golyga hyn sicrhau, er enghraifft, bod aelod o'r gwasanaethau sydd wedi'i anafu yn cael y driniaeth feddygol orau y gall y wlad hon ei chynnig a'i fod/bod yn cael yr hyfforddiant a'r adnoddau y mae ei angen/hangen i allu wynebu'r dyfodol gyda hyder.

I Awdurdodau Lleol fe allai olygu, yn achos aelod o'r gwasanaethau sydd wedi'i anafu ac sy'n dychwelyd i fyw i'r gymuned sifil, eu bod yn gallu cael mynediad at dai â chefnogaeth neu fod eu cartref presennol yn gallu cael ei addasu'n gyflym i ddiwallu eu hanghenion, a'u bod yn cael eu hasesu'n gyflym ac yn dosturiol er mwyn sefydlu lefel y gofal maent ei angen.

### Beth nesaf?

Yr Awdurdodau Lleol sy'n gwybod beth yw eu hamgylchiadau lleol orau, a nhw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i gyflawni eu hymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cyfamod. Er mwyn helpu i gefnogi Awdurdodau Lleol, mi wnaeth Forces in Mind Trust a Chymdeithas Llywodraeth Leol gomisiynu arolwg annibynnol ac adolygiad o addewidion lleol yn 2016 – Adroddiad "Ein Cymuned – Ein Cyfamod" – sy'n nodi arferion da a chamau defnyddiol y gall partneriaethau lleol eu mabwysiadu. Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb gweithredol i'w gweld yma - **http://www.fim-trust.org/reports/** - ond rydym hefyd wedi cynnwys rhai o'r prif ganfyddiadau ac enghreifftiau o arfer da yr ydym yn teimlo gallai fod yn ddefnyddiol yn y canllaw hwn. Mae copi llawn o becyn cymorth yr adroddiad, gan gynnwys awgrymiadau da a phecyn hunanasesu, wedi'u cynnwys yn yr Atodiad.

### Bod yn Gyflogwr Cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog

Mae gan filwyr wrth gefn a chyn-filwyr amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy a rhinweddau i'w cynnig i leoliad gwaith sifil, maent wedi'u datblygu drwy gydol eu gyrfaoedd milwrol. Mae bod yn hyblyg i sefyllfaoedd unigryw y Gymuned Lluoedd Arfog ehangach yn sicrhau triniaeth deg i bawb, gan gynnwys gwŷr a gwragedd/partneriaid a'u teuluoedd.

I gael gwybod beth mae **Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ei olygu i gyflogwyr** neu i gael syniadau am arferion da, ewch i wefan **Cyfamod y Lluoedd Arfog**.

### Cynllun Cydnabod Cyflogwr

Mae'r **Cynllun Cydnabod Cyflogwr (ERS)** yn cydnabod cyflogwyr sydd wedi rhoi cefnogaeth ardderchog i Gymuned y Lluoedd Arfog a'r Weinyddiaeth Amddiffyn drwy fynd y tu hwnt i addewidion y Cyfamod. Drwy ddull 3 haen o gynnig gwobrau efydd, arian ac aur, mae'r cynllun yn adnabod lefelau gwahanol o gefnogaeth ac ymrwymiad a ddangoswyd gan gyflogwyr. Mae hyn yn galluogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddiolch ac anrhydeddu'r sefydliadau hynny am eu cefnogaeth yn gyhoeddus.

I gael gwybod mwy am hyn, ewch i https://www.armedforcescovenant.gov.uk/support-and-advice/businesses/, ac i weld beth mae Cyngor Sir Hampshire wedi'i gyflawni, ewch i https://www.hants.gov.uk/community/armedforces/staffreservists

## ISADEILEDD CRAIDD AR GYFER CYFLAWNI'R CYFAMOD

Gan ddefnyddio canfyddiadau adroddiad Ein Cymuned - Ein Cyfamod, cafodd isadeiledd craidd ei lunio sy'n adlewyrchu'r camau a gymerwyd gan Awdurdodau Lleol sydd wedi llwyddo i weithredu'r Cyfamod yn llwyddiannus.   Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Adroddiad Ein Cymuned – Ein Cyfamod – Isadeiledd Craidd ar gyfer cyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog | |
|---|---|
| **Unigolion** | **Ar y Cyd** |
| • Pencampwr etholedig<br>• Cysylltiad gyda swyddog yn y cyngor | • Fforwm neu grŵp cydlynu sy'n cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn.  Mae'r aelodaeth yn cynnwys: cynrychiolwyr milwrol; elusennau milwrol; cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus; aelodau o'r cyngor (uwch aelodau etholedig o'r cabinet); a'r pencampwr.  Dylai bob fforwm adolygu ei aelodaeth, yr agenda a pha mor aml mae'n cyfarfod bob tair neu bedair blynedd<br>• Mewn rhai ardaloedd (er enghraifft Llundain) efallai bydd cynghorau a'u partneriaid yn dymuno sefydlu mecanwaith ar gyfer cydweithio ar lefel isranbarthol.  Gall hyn gynnwys: fforymau a chynlluniau gweithredu ar y cyd, ceisiadau i gronfa'r Cyfamod, pecynnau hyfforddi ar y cyd a rhannu gwefan. |
| **Cyfathrebu** | **Gweledigaeth ac Ymrwymiad** |
| • Gwefan i gefnogi'r Cyfamod gyda gwybodaeth bwysig a dolenni i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog<br>• Datganiad cyhoeddus clir yn nodi beth all aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog ei ddisgwyl gan y Cyngor<br>• Proses ar gyfer delio â phryderon<br>• Hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen<br>• Adnodd ar gyfer gallu adrodd ar gamau gweithredu a chyflawniadau megis | • Cynllun gweithredu sy'n cael ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu<br>• Adolygu polisïau<br>• Brwdfrydedd ac ymrwymiad. |

| | |
|---|---|
| adroddiad blynyddol, cylchlythyr neu gofnodion. | |

## Pencampwyr y Lluoedd Arfog a Swyddogion Arweiniol

Cam pwysig yw penodi Pencampwr y Lluoedd Arfog (mae adroddiad Ein Cymuned - Ein Cyfamod yn argymell y dylai fod yn aelod etholedig) a Swyddog Arweiniol. Yn ddelfrydol bydd yr unigolion eisiau cefnogi'r Lluoedd Arfog a dylent fod â'r pŵer i ddylanwadu ar newid ar draws yr Awdurdod Lleol. Ond gall fod yn swydd brysur, yn enwedig ar y dechrau, ac felly mae angen iddynt hefyd allu ymroi'r amser sydd ei angen ar gyfer y swydd. Er nad yw'n ofynnol, rydym yn cynghori'r Pencampwyr/Swyddogion Arweiniol i ddilyn yr arweiniad cyffredinol canlynol:

- Sicrhewch fod bodolaeth eich rôl chi fel Pencampwr y Lluoedd Arfog/Swyddog Arweiniol a'ch manylion cyswllt yn cael eu lledaenu o fewn ac oddi allan i'r sefydliad.

- Sicrhewch eich bod yn deall beth yw amcanion Cyfamod y Lluoedd Arfog; sut gall y Cyfamod gefnogi'r amcanion hyn mewn cymunedau lleol a sut all yr Awdurdod Lleol gefnogi'r Cyfamod.

- Cofiwch ystyried anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog o ran polisïau a gwasanaethau'r Awdurdod Lleol, megis yr Asesiad o Anghenion Strategol ar y Cyd neu gynlluniau dyrannu tai.

- Dylech hyrwyddo bodolaeth y Cyfamod o fewn y gymuned a'r gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud i'w ddatblygu ymhellach o fewn a thu allan i'r sefydliad.

- Chi yw pwynt cyswllt y Lluoedd Arfog yn lleol (gan gynnwys i Uned(au) Milwyr wrth Gefn) a rhanddeiliaid pwysig eraill, megis elusennau Gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau eraill.

- Sicrhewch fod y staff sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd yn ddyddiol yn ymwybodol o'r Cyfamod a'u bod yn deall sut mae'n effeithio ar wasanaethau yn lleol.

- Dylech fanteisio ar gyfleoedd fydd yn codi yn ystod Wythnos y Lluoedd Arfog ac ar Ddiwrnod y Cofio i hyrwyddo'r Lluoedd Arfog a Chyfamod y Lluoedd Arfog.

- Dylech hyrwyddo bodolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog ymysg busnesau a sefydliadau lleol, yn arbennig ymysg cyflenwyr a chontractwyr yr Awdurdod Lleol.

- Dylech ganfod a yw eich sefydliad yn cyflogi aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog a sicrhau bod unrhyw arferion cyflogaeth yn cymryd problemau a phryderon Cymuned y Lluoedd Arfog i ystyriaeth.

- Ond yn fwy na dim arall, cofiwch nid ydych ar ein pen eich hun ac mae yna nifer o sefydliadau sy'n gallu cynnig cymorth a chyngor ar sut allwch gyflawni eich Cyfamod lleol yn effeithiol.

## Cynlluniau Gweithredu

Lluniwch gynllun gweithredu i gefnogi eich ymrwymiad i'r Cyfamod. Gallwch bersonoli adran 'mesurau' dogfen addewid y Cyfamod a rhestru'r ymrwymiadau penodol y mae eich Awdurdod Lleol yn dymuno ymrwymo â nhw. Bydd hyn yn eich helpu i bennu'r cyfeiriad cyffredinol a sicrhau eich bod chi a'ch rhanddeiliaid yn cadw ar y llwybr cywir. Os byddwch yn cyhoeddi eich Cynllun Gweithredu gallwch sicrhau hefyd bod eich cymuned leol yn ymwybodol o'ch ymrwymiad a'ch cynlluniau. Cliciwch **yma** i weld enghraifft o gynllun gweithredu a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Woking.

### Ymgysylltu'n Rheolaidd â Rhanddeiliaid

Drwy drefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog a darparu gwasanaethau yn eich ardal chi[2] ac, wrth gwrs gyda'r Lluoedd Arfog eu hunain, gallwch sicrhau fod Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei hystyried pan fydd polisïau a chynlluniau yn cael eu llunio.

Gall y cyfarfodydd hyn weithredu fel fforwm lle gellir trafod heriau newydd a chymryd camau i'w datrys. Os bydd y rhanddeiliaid cywir yn rhan o hyn, gall fod yn gyfle delfrydol i rannu arferion da ac i rwydweithio. Ni fydd y Cyfamod byth wedi darfod neu orffen. Bydd angen iddo fod yn hyblyg ac addasu i amgylchiadau gwahanol a bydd y cyfarfodydd rheolaidd yn ffordd ardderchog o sicrhau bod hyn yn cael sylw amserol.

### Adroddiadau Blynyddol

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn riportio'n flynyddol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda Chyfamod y Lluoedd Arfog, y meysydd heriol sy'n parhau i fodoli a'u cynlluniau o ran sut byddant yn eu taclo. Drwy wneud hyn, mae'r llywodraeth yn sicrhau ei fod yn cael ei ddal yn atebol am gyflawni'r Cyfamod. Gallai fersiwn lleol o'r Adroddiad Blynyddol weithio yn yr un ffordd i'ch Awdurdod chi, ac ar gyfer y rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda chi. Gall fod yn ffordd o ddangos eich ymrwymiad, gadw'r Cyfamod dan oruchwyliaeth weithredol effeithiol ac adnabod heriau newydd ar yr un pryd â chydnabod cyflawniadau lleol.

### Cyfathrebu

Dim ond os bydd pobl yn gwybod ei fod yno a beth yw ei nod y bydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn gweithio. Mae'n bwysig rhoi sylw i'r ymrwymiadau rydych wedi'u gwneud, a thanlinellu beth mae'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid wedi gwneud i gyflawni'r rhain, er mwyn i'ch cymuned leol fod yn ymwybodol o beth sydd ar gael. Gellir gwneud hyn drwy greu tudalennau ar y we neu gynhyrchu cylchlythyrau rheolaidd. Dyma enghreifftiau gan Argyll a Bute a Surrey -**https://www.argyll-bute.gov.uk/armed-forces ; https://www.surreycc.gov.uk/people-and-community/advice-guidance-and-support/armed-forces**

---

2. Gallai'r rhain gynnwys sefydliadau fel Gwasanaethau Plant, Pennaeth Addysg, Pennaeth Tai, Cymdeithasau Tai, Partneriaeth Menter Lleol, Cynrychiolwyr CCG, yr heddlu lleol, Pencampwr Lluoedd Arfog Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Ymddiriedolaeth Partneriaeth Iechyd Meddwl, Healthwatch, Elusennau Lleol, Comanderiaid Unedau Milwrol Lleol, Ffederasiynau Teuluoedd neu Elusennau'r Gwasanaeth.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod staff yr Awdurdod Lleol sy'n delio ag aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o'r Cyfamod yn gyffredinol a sut y mae ymrwymiadau penodol eich Awdurdod yn effeithio ar wasanaethau lleol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y pecyn hyfforddi i staff a ddarperir ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Swydd Warwick, sydd ar gael am ddim i bob Awdurdod Lleol, sefydliadau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol, yma - **http://www.warwickshire.gov.uk/blog/archives/alerts/free-training-on-the-armed-forces-covenant-and-community**

| **Detholiad o adroddiad Ein Cymuned – Ein Cyfamod – Pecyn Hunanasesu ar Gyfathrebu** |
|---|
| **Mewnol**<br>• Sut mae swyddogion y cyngor/y Weinyddiaeth Amddiffyn/elusennau a staff rheng flaen yn cael eu briffio ar y Cyfamod?<br>• Sut mae gwybodaeth yn cael ei chasglu?<br>• Sut gellid rhannu gwybodaeth yn well o fewn sefydliadau? |
| **Allanol**<br>• Sut mae camau gweithredu ar addewidion lleol yn cael eu rhannu â'r cyhoedd?<br>• Sut gellid gwella'r broses o rannu gwybodaeth?<br>• A oes yna wefan sy'n hawdd i'w defnyddio ac sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd? Pwy sy'n cynnal y wefan (y cyngor, HIVE neu rywun tebyg neu elusen)?<br>• Sut mae'r gefnogaeth sydd ar gael i Gymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei lledaenu i'r unigolion anodd eu cyrraedd? |
| **Effaith**<br>• Sut cofnodir effaith cyflawni'r Cyfamod lleol? |

## PRIF WASANAETHAU – ARWEINIAD MANWL

Fel aelod o Awdurdod Lleol mae'n bosib y byddwch yn gyfrifol - i ryw raddau - am ddarparu gwasanaethau iechyd, addysg neu dai cymdeithasol, sydd i gyd yn bryderon i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog. Mae arweiniad manwl ar bob un o'r rhain, yn ogystal â chyflogaeth a hyfforddiant, yn cael ei baratoi ar gyfer yr Ardaloedd Datganoledig a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

Mae yna ddolenni i wefannau allweddol a sefydliadau defnyddiol sy'n gysylltiedig â darparu rhai gwasanaethau penodol ar ddiwedd y canllaw hwn.

## COFIO A CHYDNABOD

Gellir trefnu pob math o ddigwyddiadau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn i ddathlu a chofio'r hyn y mae milwyr y presennol a'r gorffennol wedi'i aberthu, ac mae yna sawl enghraifft o Awdurdodau Lleol yn gwneud hyn yn barod.

Daw'r enghreifftiau isod o wefan Gorllewin Norfolk ac mae erthygl am ddigwyddiadau yn Swydd Hertford yn dangos y math o weithgareddau sy'n cymryd lle ar draws y wlad - **https://www.west-norfolk.gov.uk/info/20007/people_and_communities/237/armed_forces_support>**; **<https://www.hcrlaw.com/event/herefordshires-1916-centenary-commemoration-armed-forces-day/**.

Fodd bynnag, dyma rai dyddiadau pwysig ar gyfer eich dyddiadur.

## Sul y Cofio a Diwrnod y Cadoediad

Diwrnod "i goffáu cyfraniad milwyr a sifiliaid gwrywaidd a benywaidd Prydeinig a'r Gymanwlad yn y ddau Ryfel Byd ac mewn brwydrau diweddarach" yw Sul y Cofio. Awdurdodau Lleol sy'n arwain ar drefnu'r digwyddiadau hyn gyda chymorth gan yr heddlu lleol ac elusennau milwrol. Fe'i gynhelir ar yr ail ddydd Sul ym mis Tachwedd.

Ar draws y Deyrnas Unedig ar Sul y Cofio fe gynhelir seremonïau wrth gofebion rhyfel lleol yn y rhan fwyaf o ddinasoedd, trefi a phentrefi ac mae gŵyr a gwragedd pwysig sifil, cyn-filwyr ac aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn eu mynychu.

Ar Ddiwrnod y Cadoediad rydym yn coffau diwedd y brwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac fe'i gynhelir bob blwyddyn ar 11 Tachwedd.

## Diwrnod y Lluoedd Arfog

Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog yn gyfle i ddangos eich cefnogaeth a dweud diolch i'r dynion a'r merched sy'n rhan o Gymuned y Lluoedd Arfog: o filwyr sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, milwyr wrth gefn, teuluoedd y milwyr, cyn-filwyr a chadetiaid. Mae yna nifer o ffyrdd y gall pobl, cymunedau a sefydliadau ar draws y wlad ddangos eu cefnogaeth a bod yn rhan o'r diwrnod hwn; o fynychu digwyddiad i gynnal parti neu ddigwyddiad lleol. Fe gynhelir Diwrnod y Lluoedd Arfog bob blwyddyn ar y dydd Sadwrn olaf ym mis Mehefin. I gael gwybod mwy am sut allwch fod yn rhan o'r diwrnod hwn, ewch i wefan Diwrnod y Lluoedd Arfog - https://www.armedforcesday.org.uk/about/

## Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn

Mae Milwyr Wrth Gefn yn rhoi eu hamser hamdden i wasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn, ac maent yn cydbwyso eu bywyd sifil â'u gyrfa filwrol i sicrhau y byddent ar gael i wasanaethu fel rhan o'r lluoedd arfog petai eu gwlad eu hangen.

Mae tua un rhan o chwech o filwyr y Lluoedd Arfog yn aelodau o'r Lluoedd wrth Gefn ac maent yn gymorth allweddol wrth amddiffyn diogelwch y genedl gartref a thramor, yn arbennig o ran darparu sgiliau mewn meysydd arbenigol megis y maes meddygol a seiber.

Fel eu cydweithwyr yn y Lluoedd Rheolaidd, mae Milwyr y Lluoedd wrth Gefn yn cefnogi ymgyrchoedd yn y DU a thramor. .

Fodd bynnag, yn aml iawn ni chydnabyddir eu cyfraniad i'n Lluoedd Arfog. Felly, ffurfiwyd Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn i dynnu sylw at, a chydnabod cyfraniad gwerthfawr y Milwyr wrth Gefn i'n Lluoedd Arfog.

I gael gwybod sut allwch fod yn rhan o'r diwrnod a chwarae eich rhan er mwyn cydnabod gwaith ein Lluoedd Wrth Gefn yn gyhoeddus, ewch i'r wefan - https://www.armedforcesday.org.uk/reserves-day/

# ARIANNU'R CYFAMOD

Mae Cronfa'r Cyfamod yn grant parhaus a roddir gan y llywodraeth i brosiectau fydd o fantais i'r lluoedd arfog a'r gymuned. Mae'r prosiectau yn amrywio o adeiladu meithrinfeydd newydd mewn ardaloedd sifil lle mae nifer o deuluoedd y lluoedd arfog yn byw, i ariannu gweithgareddau milwrol sy'n gwella'r ddealltwriaeth rhwng y cymunedau milwrol a sifil yn yr un ardal.

**Mae Awdurdodau Lleol ymysg y sefydliadau sy'n gymwys i ymgeisio am grant gan Gronfa'r Cyfamod.** Gallwch weld enghreifftiau o brosiectau sydd wedi cael eu hariannu drwy fynd i adran Awdurdodau Lleol ar wefan y Cyfamod - https://www.armedforcescovenant.gov.uk/localauthorities/

Mae gan Gronfa'r Cyfamod 4 brif thema ar gyfer nawr a'r dyfodol:

- Cael gwared â rhwystrau i fywyd teuluol.
- Darparu cefnogaeth ychwanegol i filwyr ar ôl iddynt adael y gwasanaeth.
- Mesurau i integreiddio cymunedau milwrol a sifil a galluogi Cymuned y Lluoedd Arfog i fod yn rhan o'r gymuned sifil.
- Gwasanaethau gofal iechyd di-graidd i gyn-filwyr.

Bydd y themâu hyn yn siapio'r gronfa, a bydd y blaenoriaethau oddi fewn iddynt yn cael eu haddasu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y gronfa yn parhau i fod yn gyfredol a pherthnasol.

Dyma'r blaenoriaethau ariannu ar gyfer Ebrill 2017 – Mawrth 2018:

- Teuluoedd sydd dan straen
- Cryfhau sut mae llywodraeth leol yn cyflawni'r Cyfamod
- Cyfamod y Lluoedd Arfog: grantiau lleol
- Grant sengl i gynhyrchu map o'r angen am Gronfa'r Cyfamod
- Grant sengl i gynhyrchu fframwaith canlyniadau ar gyfer Cronfa'r Cyfamod

## Gwybodaeth arall

Dim ond ychydig o arian sydd ar gael, ac felly dim ond y prosiectau gorau byddwn yn gallu eu hariannu. Gan fod hon yn gronfa barhaus, bydd yna ddigon o gyfle i wneud cais am grant yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod os nad yw eich prosiect yn barod eto.

## Cysylltu â Thîm Grant y Cyfamod

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y blaenoriaethau, y meini prawf a'r broses ymgeisio ar y dudalen hon - https://www.gov.uk/government/publications/covenant-fund-guidance-on-how-to-apply
Os oes gennych unrhyw gwestiynau nad ydynt wedi cael eu hateb yn yr arweiniad, cysylltwch â ni drwy e-bostio: **covenant-grantteammailbox@mod.uk.**

Mae yna fwy o wybodaeth am y blaenoriaethau blynyddol a sut i wneud cais am arian yma - **https://www.gov.uk/government/collections/covenant-fund**

**PORTH Y CYN-FILWYR**

Mae Porth y Cyn-filwyr yn bwynt cyswllt unigol i gyn-filwyr er mwyn iddyn nhw a'u teuluoedd allu cael yr wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth gywir. Mae Porth y Cyn-filwyr yn darparu gwefan, gwasanaeth sgwrsio ar-lein, llinell ffôn a gwasanaeth neges testun i bob cyn-filwr lle bynnag maent wedi'u lleoli, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r cyn-filwyr yn gallu cael mynediad i rwydwaith o sefydliadau arbenigol sy'n gallu eu helpu gyda materion tai, gwasanaethau iechyd meddwl, cyngor ariannol a chefnogaeth cyflogaeth. Nid yw'n darparu gwasanaethau ei hun, yn dyblygu, yn cystadlu yn erbyn, neu'n tanseilio gwaith elusennau neu adrannau'r llywodraeth. Dyma'r wefan

**www.veteransgateway.org.uk**

**Yn olaf....**

Ni fydd y Cyfamod byth wedi darfod neu orffen. Bydd angen iddo fod yn hyblyg ac addasu i amgylchiadau gwahanol fydd yn creu heriau newydd ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog a'r cymunedau lle byddant yn byw ynddynt. Drwy ddefnyddio Cyfamod y Lluoedd Arfog fel mecanwaith i adnabod meysydd o angen a chydlynu darpariaeth gwasanaethau yn well, gallwn gydweithio i sicrhau bod Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael y tegwch maen ei haeddu.

**DOLENNI A CHYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL**

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog ar gyfer 2016 yn adrodd ar bopeth sydd wedi'i gyflawni a beth sydd angen ei wneud o hyd. Mae'n cynnwys cyfraniadau gan lywodraethau'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar yr ymrwymiadau maent wedi'u cyflawni. Gallwch hefyd gael gwybod mwy am eu gwaith drwy ymweld â'u gwefannau. I gael gwybod mwy am Gyfamod y Lluoedd Arfog a beth mae'n ei olygu i chi, ewch i: **www.armedforcescovenant.gov.uk**

Y Cyfamod yn Yr Alban: **https://beta.gov.scot/policies/veterans-and-armed-forces/**

Y Cyfamod yng Nghymru: **http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/armedforces/package-of-support/?lang=en**

Gallwch ddod o hyd i fanylion pencampwyr cyn-filwyr yr Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Iwerddon yma: ***http://www.reservesandcadetsni.org.uk/veteran/***

NHS choices – Gofal Iechyd ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog: http://www.nhs.uk/NHSEngland/Militaryhealthcare/Pages/Militaryhealthcare.aspx

Gwefan Moneyforce: ***http://www.moneyforce.org.uk/***

Veterans UK: https://www.gov.uk/government/organisations/veterans-uk

Y Lleng Prydeinig Brenhinol ***http://www.britishlegion.org.uk/***

SSAFA: ***https://www.ssafa.org.uk/***

Cymdeithas y Gweddwon Rhyfel: ***http://www.warwidows.org.uk/***

Conffederasiwn Elusennau'r Gwasanaethau: ***https://www.cobseo.org.uk/***

Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges: ***http://nff.org.uk/***

Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin: ***http://www.aff.org.uk/***

Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol: ***http://www.raf-ff.org.uk/***

Canolfan Cyngor ar Bopeth: ***https://www.citizensadvice.org.uk/***

Gwasanaeth Gwybodaeth Lles y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol: ***http://www.royalnavy.mod.uk/welfare/welfare-teams***

Gwasanaeth Gwybodaeth HIVE Yr Awyrlu Brenhinol: https://www.raf.mod.uk/community/support/raf-hive-information-service/

HIVE y Fyddin (Lles): ***http://www.army.mod.uk/welfare-support/23438.aspx***

Porth y Cyn-filwyr yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys gofal iechyd, tai a chyflogaeth: **https://www.gov.uk/government/news/veterans-gateway**

**Materion Iechyd**

Yn Lloegr: **NHS Choices**
Yn Yr Alban: **http://www.scot.nhs.uk//** a **http://www.gov.scot/Topics/Health/Services/Armed-Forces**
Yng Nghymru: **http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/** a **http://www.veteranswales.co.uk/**
Yng Ngogledd Iwerddon: http://online.hscni.net/
Tudalennau gwybodaeth y llywodraeth: **https://www.gov.uk/**

**Addysg**

Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant y Weinyddiaeth Amddiffyn: **https://www.gov.uk/guidance/childrens-education-advisory-service**

Mae Plant y Gwasanaethau yn Ysgolion y Wladwriaeth (SCISS) yn weithgor o arbenigwyr addysgol. Maent wedi cynhyrchu llawlyfr i ysgolion sy'n egluro sut all gyrfa filwrol rhiant effeithio ar addysg a lles plant: **https://www.gov.uk/government/publications/service-children-in-state-schools-handbook**
Mae'r prosiect 'Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru' yn cael ei arwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Cefnogaeth Addysgol y Weinyddiaeth Amddiffyn http://www.sscecymru.co.uk/home/

**Llety**

Cymorth i Brynu y Lluoedd Arfog: **https://www.gov.uk/guidance/forces-help-to-buy**

Swyddfa Cyngor ar Dai y Gwasanaethau: **https://www.gov.uk/government/collections/joint-service-housing-advice-office-jshao**

Lloegr: Mae gwefan Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn rhoi amrywiaeth o arweiniad ar dai cymdeithasol ac opsiynau eraill sydd ar gael o ran llety i filwyr a chyn-filwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma:
**https://www.gov.uk/government/publications/allocation-of-accommodation-guidance-for-local-housing-authorities-in-england**

Yr Alban: **http://www.gov.scot/Publications/2010/03/24165717/1**

Cymru: **http://gov.wales/docs/desh/publications/160324-code-of-guidance-for-local-authorities-on-allocation-of-accommodation-and-homelessness-en.pdf**

Llwybr Tai Cymru ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog:
**http://gov.wales/docs/housing-and-regeneration/services-and-support/homelessness/national-housing-pathway-fo-ex-service-personnel/?lang=en**

Tai yng Ngogledd Iwerddon: **http://www.nihe.gov.uk/allocations**

### Cyflogaeth, Hyfforddiant a Chefnogaeth

Bwriad cynllun **Supporting the Unsung Hero – Prifysgol Wolverhampton** yw helpu aelodau o deuluoedd y Lluoedd Arfog ddechrau eu busnesau eu hunain drwy ddarparu hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth am ddim cyn, yn ystod ac am gyfnod ar ôl iddynt sefydlu eu cwmnïau eu hunain.

Mae **RBLI LifeWorks** yn cynnig cyrsiau a gwasanaethau cefnogi gyda'r bwriad o helpu cyn-filwyr i ddod o hyd i waith, ac mae **RBLI LIfeWorks for Families** yn cynnig cyrsiau a gwasanaethau cefnogi gyda'r nod o helpu aelodau o deuluoedd y Lluoedd Arfog ddod o hyd i waith. Mae RBL Civvy Street yn wefan ar gyfer milwyr a chyn-filwyr a'u dibynyddion. Mae'n cynnig gwybodaeth a chyngor am ddim am ailsefydlu i fywyd sifil, hyfforddiant a gwaith.

Mae'r **British Forces Resettlement Service** yn gynllun nid er elw a grëwyd i helpu aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog i ddod o hyd i waith wrth iddynt drawsnewid i fywyd sifil.

**The Recovery Career Services.** Cynllun ar gyfer y tri llu arfog yw hwn sy'n cynnig cyngor ar yrfaoedd a chefnogaeth i filwyr sydd wedi cael eu clwyfo, eu hanafu neu sy'n sâl ac sy'n gadael y Lluoedd Arfog.

**Pencampwyr y Lluoedd Arfog "Canolfan Byd Gwaith" Yr Adran Gwaith a Phensiynau** Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

**ATODIAD**

## PECYN CYMORTH ADRODDIAD EIN CYMUNED – EIN CYFAMOD

Cynlluniwyd y pecyn cymorth hwn i helpu cynghorau i ystyried anghenion eu cymuned y Lluoedd Arfog a gweithredu addewidion eu Cyfamod lleol. Mi wnaethom ddechrau datblygu pob elfen o'r pecyn cymorth hwn pan wnaethom y gwaith ymchwil cychwynnol ar gyfer yr argraffiad cyntaf o'r adroddiad hwn. Rydym wedi adolygu'r pecyn cymorth o ganlyniad i'r pedwar ymarfer at wraidd y mater a drefnwyd a digwyddiad Cyfamod Bwrdeistrefi Llundain drwy wneud rhai newidiadau i'r isadeiledd craidd a'r pecyn cymorth hunanasesu. Rydym yn rhagweld y bydd cynghorau yn defnyddio'r pecyn hwn fel ffordd o adolygu sut maent yn gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog, er mwyn adnabod unrhyw fylchau sydd angen sylw ac er mwyn annog trafodaethau rhwng rhanddeiliaid. Mae wedi'i rannu'n dair rhan:

- Isadeiledd craidd a'r pecyn hunanasesu
- Senarios
- Awgrymiadau Da

### ISADEILEDD CRAIDD

Cafodd yr isadeiledd craidd ei ddatblygu pan wnaethom y gwaith ymchwil cychwynnol ar gyfer yr argraffiad cyntaf o 'Ein Cymuned – Ein Cyfamod'. Mae'n cynnwys y mecanweithiau yr ydym yn credu fydd gan y cynghorau sy'n cyflawni'r Cyfamod mewn lle. Mi wnaethom brofi'r isadeiledd craidd drwy gydol y pedwar ymarfer at wraidd y mater cychwynnol a'r pedwar ymarfer at wraidd y mater dilynol, ac rydym wedi gwneud rhai newidiadau yn sgil ein canfyddiadau. Mae'r isadeiledd craidd terfynol i'w weld isod. Bydd yn adnodd defnyddiol ar gyfer cynghorau a gallant ei ddefnyddio fel rhestr wirio i sicrhau bod y pethau sylfaenol mewn lle yn y lleoliad penodol hwnnw.

| Adroddiad Ein Cymuned – Ein Cyfamod – Isadeiledd Craidd ar gyfer cyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog | |
|---|---|
| **Unigolion** | **Ar y Cyd** |
| Pencampwr etholedig<br><br>Cysylltiad gyda swyddog yn y cyngor | Fforwm neu grŵp cydlynu sy'n cyfarfod o leiaf dwywaith y flwyddyn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys: cynrychiolwyr milwrol; elusennau milwrol; cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus; aelodau o'r cyngor (uwch aelodau etholedig o'r cabinet); a'r pencampwr. Dylai bob fforwm adolygu ei aelodaeth, yr agenda a pha mor aml mae'n cyfarfod bob tair neu bedair blynedd.<br><br>Mewn rhai ardaloedd (er enghraifft Llundain) efallai bydd cynghorau a'u partneriaid yn dymuno sefydlu mecanwaith ar gyfer cydweithio ar lefel isranbarthol. |

| | |
|---|---|
| | Gall hyn gynnwys: fforymau a chynlluniau gweithredu ar y cyd, ceisiadau i gronfa'r Cyfamod, pecynnau hyfforddi ar y cyd a rhannu gwefan. |
| **Cyfathrebu** | **Gweledigaeth ac Ymrwymiad** |
| Gwefan i gefnogi'r Cyfamod gyda gwybodaeth bwysig a dolenni i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog<br><br>Datganiad cyhoeddus clir yn nodi beth all aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog ei ddisgwyl gan y Cyngor<br><br>Proses ar gyfer delio â phryderon<br><br>Hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen<br><br>Adnodd ar gyfer gallu adrodd ar gamau gweithredu a chyflawniadau megis adroddiad blynyddol, cylchlythyr neu gofnodion. | Cynllun gweithredu sy'n cael ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu<br><br>Adolygu polisïau<br><br>Brwdfrydedd ac ymrwymiad. |

## PECYN HUNANASESU

Mi wnaethom ddrafftio pecyn hunanasesu yn ystod yr argraffiad cyntaf o'r adroddiad hwn ac rydym wedi ei brofi eto wedi hynny. Mi wnaethom ddatblygu'r pecyn hwn ar gyfer cynghorau sydd eisiau asesu sefyllfa addewidion eu Cyfamod lleol. Bydd yn galluogi partneriaid lleol i gael trafodaeth ystyrlon am eu hymrwymiad i sicrhau nad yw aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn wynebu anfantais oherwydd eu gwasanaeth. Bydd yn adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ac unrhyw beth sydd angen sylw yn y dyfodol; byddai felly yn weithgaredd defnyddiol i'w chwblhau bob blwyddyn.

Mae'r pecyn wedi'i rannu'n bedair rhan: gweledigaeth ac ymrwymiad; cyfathrebu; unigolion; ac ar y cyd. Cafodd ei lunio ar gyfer aelodau o Fforwm Cyfamod y Lluoedd Arfog, neu amrywiaeth o randdeiliaid (gan gynnwys swyddogion y cyngor, cynrychiolwyr milwrol a chynrychiolwyr elusennau milwrol) er mwyn iddynt allu trafod addewidion eu hardal leol. Nid bwriad yr adnodd yw dod o hyd i ateb i bob cwestiwn, ond yn hytrach ffordd ydyw o ystyried a yw cwestiwn yn berthnasol i bob ardal leol.

| Gweledigaeth ac Ymrwymiad |
|---|
| **Presenoldeb Cymuned y Lluoedd Arfog**<br>• Faint o aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog sydd yn eich ardal leol chi?<br>• Beth arall ellir gwneud er mwyn llwyr ddeall ôl troed Cymuned y Lluoedd Arfog?<br>• A oes potensial i allu cydweithio ar gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog gyda chynghorau cyfagos? |

| |
|---|
| **Anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog**<br>• A oes yna ddealltwriaeth dda o anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog o fewn gwasanaethau tai, cyflogaeth, ysgolion a gwasanaethau plant? Sut cafodd yr anghenion hynny eu hadnabod?<br>• Pa sefydliadau fyddai'n gallu helpu i daclo'r anghenion hynny? (h.y. y Cyngor, Lluoedd Arfog, elusennau).<br>• Beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i helpu i daclo'r anghenion hynny?<br>• Beth arall ellir gwneud i daclo'r anghenion hyn? |
| **Yn y dyfodol**<br>• A oes yna ddealltwriaeth gyffredin o sut fyddai gweithrediad llwyddiannus o'r Cyfamod yn edrych? |
| **Cynllunio ar gyfer gweithredu**<br>• A yw'r meysydd sydd angen sylw wedi cael eu diffinio?<br>• A oes dull wedi'i gytuno arno ar gyfer y broses weithredu?<br>• Sut fydd y camau gweithredu yn cael eu monitro a'u hadolygu? |
| **Unigolion** |
| **Pencampwr y Lluoedd Arfog?**<br>• A oes yna Bencampwr y Lluoedd Arfog etholedig?<br>• Beth mae'r rôl yn ei olygu?<br>• A oes yna feysydd lle gellir datblygu rôl Pencampwr y Lluoedd Arfog? |
| **Swyddogion**<br><br>• Pwy yw'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog a pwy sy'n gyfrifol amdano o ddydd i ddydd?<br><br>• Sut gellir cefnogi'r rôl hon ymhellach? |
| **AR Y CYD** |
| **Fforwm / grŵp cydlynu**<br>• A oes Fforwm Cyfamod wedi'i sefydlu? Pwy yw aelodau'r fforwm? Pa mor aml mae'n cyfarfod?<br>• Beth yw'r prif eitemau a drafodir yn y fforwm?<br>• Sut mae'r camau gweithredu yn cael eu monitro?<br>• I ba raddau y mae nodau'r fforwm yn cael eu cyflawni? Beth ellir gwneud i gynyddu'r effaith y mae'r fforwm yn ei gael?<br>• Pa mor aml mae aelodaeth, agenda ac amlder cyfarfodydd y fforwm yn cael eu hadolygu?<br>• • A fyddai'n helpu petai yna fforwm isranbarthol gyda chynghorau cyfagos? |
| **Perthnasoedd**<br>• A oes yna fecanweithiau mewn lle i gynnal perthnasoedd rhwng rhanddeiliaid y Lluoedd Arfog?<br>• A fyddai'r cyngor, y Lluoedd Arfog ac elusennau yn gallu cydweithio'n fwy effeithiol?<br>• A fyddai cynyddu'r gwaith cydweithio isranbarthol a wneir yn helpu i gyflawni addewidion y Cyfamod yn lleol? |
| **CYFATHREBU** |
| **Mewnol**<br>• Sut mae swyddogion y cyngor/y Weinyddiaeth Amddiffyn/elusennau a staff rheng flaen yn cael eu briffio ar y Cyfamod?<br>• Sut mae gwybodaeth yn cael ei chasglu?<br>• Sut gellid rhannu gwybodaeth yn well o fewn sefydliadau? |
| **Allanol**<br>• Sut mae camau gweithredu ar addewidion lleol yn cael eu rhannu â'r cyhoedd?<br>• Sut gellid gwella'r broses o rannu gwybodaeth?<br>• A oes yna wefan sy'n hawdd i'w defnyddio ac sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd? Pwy sy'n cynnal y |

| |
|---|
| wefan (y cyngor, HIVE neu rywun tebyg neu elusen)?<br>• • Sut mae'r gefnogaeth sydd ar gael i Gymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei lledaenu i'r unigolion anodd eu cyrraedd? |
| **Effaith**<br>• Sut cofnodir effaith cyflawni'r Cyfamod lleol? |

## SENARIOS

Mi wnaethom ddatblygu'r senarios canlynol ar gyfer y digwyddiad 'gwneud synnwyr' yn ystod y gwaith ymchwil ar gyfer yr argraffiad cyntaf o'r adroddiad. Mae'r senarios hyn yn tynnu sylw at amrywiaeth o faterion rydym wedi'u hamlygu ac ni fyddant yn berthnasol i bob ardal. Mae'n adnodd defnyddiol i'r cynghorau wrth iddynt feddwl am y mecanweithiau cyflawni sydd ganddynt mewn lle er mwyn taclo'r prif bethau sydd angen sylw yn y senario. Gallai'r cynghorau ddefnyddio'r adnodd drwy ofyn y cwestiwn: "Beth fyddem yn gallu gwneud petai gennym breswylydd yn y sefyllfa hon?"

**TEULU'R NELSONS:** Teulu'r Llynges Frenhinol sy'n byw mewn Llety i Deuluoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r tad yn danforwr sydd ar batrôl ar hyn o bryd a dim ond mewn argyfyngau enbyd y gellir cysylltu ag ef. Nid yw'r fam yn gweithio. Mae ganddynt ddau o blant sy'n 6 a 10 oed. Mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i sicrhau ysgol uwchradd ar gyfer y plentyn hynaf yn agosáu. Mae'r rhieni wedi gwahanu ac yn y broses o ysgaru; pan fydd y tad ar y tir mae'n aros mewn llety i bobl sengl y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r teulu wedi cael hysbysiad i adael eu tŷ mewn 93 diwrnod. Mae'r fam yn dymuno aros yn yr ardal (lle nad oes llawer o dai ar gael) ac mae wedi cysylltu â'r Awdurdod Lleol am gymorth.

**TEULU'R DARLINGS:** Teulu'r Fyddin. Maent yn symud o'r Almaen i safle mewn sir yn Lloegr. Mae Llety ar gyfer Teuluoedd y Lluoedd Arfog ar gael mewn tri lleoliad yn yr ardal ond mae'r teulu wedi cael gwybod na fyddant yn cael gwybod ymhle yn y sir mae'r llety hyd nes pythefnos cyn iddynt gyrraedd. Mae ganddynt ddau o blant sy'n 8 a 13 oed. Mae gan yr ieuaf ddyslecsia ac asesiad anghenion addysgol arbennig, tra bod y plentyn hynaf angen trefn ac mae'n cael ei fonitro gan wasanaethau gofal iechyd eilaidd.

**TEULU'R TRENCHARDS:** Teulu'r Llu Awyr Brenhinol. Mae'r tad yn gwasanaethu yng Nghatrawd y RAF ond bydd yn gadael y Llu Awyr Brenhinol ymhen 5 mis ar ddiwedd ei swydd bresennol pan fydd yn 44 oed. Mae gan ei wraig swydd ran amser. Mae ganddynt ddau o blant sy'n 16 a 17 oed sy'n mynychu'r Coleg Chweched Dosbarth lleol ac maent eisiau ymgartrefu yn yr ardal. Ymunodd y tad â'r Llu Awyr Brenhinol fel awyrennwr i ddechrau, ond mae nawr yn Is-Swyddog ac mae ganddo gymwysterau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn llwyr tu allan i'r Lluoedd Arfog. Mae'r tad yn dechrau chwilio am waith ac am ffyrdd o drosi ei gymwysterau fel eu bod yn cael eu cydnabod gan gyflogwyr sifil. Nid oes ganddynt ddigon o arian i roi blaendal ar dŷ. Pa fath o gymorth sydd ar gael iddynt o ran tai a chyflogaeth, yn ogystal â meysydd eraill?

**ROGER JARVIS:** Gadawodd Roger y Fyddin yn 2001 ar ôl gwasanaethu yn y Corfflu Logisteg Brenhinol am 14 blynedd ac fe ymddiswyddodd yn wirfoddol o'i swydd fel Uwch Swyddog Digomisiwn. Mae yn ei 50au cynnar a gadawodd ei wraig 8 mlynedd yn ôl yn dilyn honiadau o gamdriniaeth ddomestig gan y naill ochr a'r llall. Mae wedi cael amrywiaeth o swyddi sgiliau isel ers iddo adael y Fyddin a chafodd ei ddiswyddo yn ddiweddar ac nid oedd yn gallu talu'r rhent ar ei fflat. Mae nawr wedi symud yn ôl, heb waith, i'r ardal lle'r aeth i'r ysgol, ond nid yw ei deulu yn byw yn yr ardal erbyn hyn ac mae'n ymddangos fel nad oes ganddo unrhyw rwydwaith cymdeithasol yno chwaith.

## AWGRYMIADAU DA

Yn ystod yr ymarferion at wraidd y mater mi wnaethom adnabod nifer o awgrymiadau da a allai fod yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid sy'n meddwl am ffyrdd o wella sut maent yn cyflawni'r Cyfamod yn lleol.  Dylai'r awgrymiadau da canlynol ategu'r awgrymiadau sydd wedi'u cynnwys yn gynharach yn ein hadroddiad.

### Perthnasoedd da

Sefydlu, cynnal ac adfywio'n rheolaidd gyswllt â chomanderiaid safle ac unigolion allweddol eraill yn safleoedd y Lluoedd Arfog (er mwyn adlewyrchu'r trosiant rheolaidd mewn deiliaid swydd).

Defnyddio seremonïau i ddatblygu a chynnal cysylltiadau ag unigolion allweddol.

Gwahodd uwch gynrychiolwyr o Gymuned y Lluoedd Arfog i fod yn aelodau o gyrff partneriaeth lleol perthnasol, ac nid dim ond y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r Cyfamod.

Datblygu a chynnal cysylltiadau da ag elusennau'r Lluoedd Arfog a sefydlu dealltwriaeth gyffredin gyda nhw ar faterion megis pryd mae angen cyfeirio unigolion sydd ag anghenion tai atynt.

### Y Cyngor

Sefydlu swydd un pwrpas am gyfnod penodol o amser er mwyn helpu i sefydlu'r isadeiledd craidd a'r cysylltiadau.

Annog swyddogaeth goruchwylio a chraffu'r Cyngor i gynnal adolygiad rheolaidd o gyflawniad y Cyfamod.

Sicrhau bod y Cyfamod wedi'i gynnwys yn rhaglenni hyfforddiant yr Awdurdod Lleol.

Trefnu i'r Lleng Brydeinig Frenhinol, neu elusen debyg, friffio staff y cyngor sy'n delio â'r cyhoedd.

Cyflogi cyn-filwyr a gŵyr a gwragedd/partneriaid milwyr fel gweithwyr allweddol fyddai'n rhoi cyngor i gyn-filwyr.

### Ymgysylltu â safleoedd milwyr

Galluogi, annog a sicrhau fod cyfleusterau ar neu ger safleoedd y Lluoedd Arfog yn cael eu rhannu'n ddiogel.

Penodi pencampwr ar gyfer pob safle – fel arfer yr unigolyn sy'n cynrychioli'r ward neu'r ardal lle mae'r safle wedi'i leoli.

Ymgysylltu â phobl ifanc o deuluoedd y Lluoedd Arfog - mae ganddynt bersbectif gwahanol ac onest. Gellir gwneud hyn drwy Fforymau Ieuenctid y Gwasanaeth.

ARMED FORCES
COVENANT